



FFURFLEN GAIS

Cyfansoddi: Cymru 2020

gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Cyfansoddi: Cymru gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Dydd Mawrth 28 Ionawr, Dydd Mawrth 3 Mawrth a Dydd Mercher 4 Mawrth 2020

gyda B Tommy Andersson a Huw Watkins

Mewn cydweithrediad â Cyfansoddwyr Cymru, Tŷ Cerdd, Gŵyl Bro Morgannwg a Chymdeithas Cerddoriaeth Cymru

LLENWCH Y FFURFLEN HON A'I HANFON GYDA'CH CYFANSODDIAD

Caiff cyfansoddwyr gyflwyno hyd at 2 ddarn i'w hystyried ar gyfer y prosiect. Llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob cyfansoddiad.

Enw _____

Cyfeiriad

_____ Cod Post _____

E-bost _____

Rhif ffôn _____ Symudol _____

Enw'r cyfansoddiad a gyflwynir _____

Rhestrwch isod fanylion unrhyw berfformiadau amatur blaenorol o'r cyfansoddiad a gyflwynir:

Offeryniaeth _____

Ydych chi wedi cynnwys recordiad o'r gwaith rydych yn ei gyflwyno? _____ Do / Naddo

Os yw ar gael, anfonwch recordiad Sibelius electronig neu CD neu ffeil sail o'r sgôr lawn. Sylwer nad yw hyn yn hanfodol.

Trowch y Dudalen →

Rwy'n cadarnhau'r canlynol:

- Nid yw fy nghais i Cyfansoddi: Cymru wedi cael ei berfformio o'r blaen gan gerddorfa broffesiynol.
- Rwyf wedi darllen a deall holl Ganllawiau Cyfansoddi: Cymru Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.
- Mae fy nghais i Cyfansoddi: Cymru yn bodloni'r holl feini prawf.

Ticiwch un o'r blychau isod i nodi pa gategori mynediad yr ydych ynddo, ac ychwanegwch eich llofnod:

- Rwy'n gyfansoddwr a aned yng Nghymru ac wedi cwblhau addysg drydyddol.
- Rwy'n gyfansoddwr sydd wrthi'n astudio ar Lefel Ôl-radd yng Nghymru.
- Rwy'n gyfansoddwr sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac wedi cwblhau addysg drydyddol.
- Rwy'n gyfansoddwr a aned yng Nghymru sy'n astudio cyfansoddi ar Lefel Ôl-radd y tu allan i Gymru.

Bydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC hefyd yn ystyried sgorau gan gyfansoddwyr a aned yng Nghymru neu sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac sy'n gallu dangos hanes sicr o gyfansoddi, heblaw cwblhau gradd mewn cerddoriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Sylwer bod rhaid i gyfansoddwyr allu dangos yn glir eu bod wedi cael addysg flaenorol gyfwerth a bod ganddynt lefel addas o brofiad neu gymhwysedd sy'n cymharu â'r categorïau a restrir uchod. Rhestrwch y manylion isod:

Amlinellwch yn gryno isod unrhyw wybodaeth am y cyfansoddiad rydych chi wedi'i gyflwyno ar gyfer Cyfansoddi: Cymru 2020 a all fod o ddefnydd i'r tîm sy'n llunio rhestr fer:

Amlinellwch yn gwyno sut rydych yn gobeithio elwa o gymryd rhan yn Cyfansoddi: Cymru 2020 os caiff eich darn ei ddewis:

LLOFNOD _____ PRINTIWCH EICH ENW _____

Dychwelwch y ffurflen gyda'ch gwaith i Cyfansoddi: Cymru 2020 yn:

Cyfansoddi: Cymru 2020

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Neuadd Hoddinott y BBC, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5AL.

Rhif Ffôn: 0800 052 1812

E-bost: now@bbc.co.uk



Datgelu data

Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu ymddiried ynom ni. Mae'r BBC wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad hwn, ac unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill y byddwn ni'n eu darparu ar adegau penodol pan fyddwn ni'n casglu neu'n prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, a hynny fel eich bod chi'n ymwybodol o sut a pham rydym ni'n defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Mae gwybodaeth ychwanegol am brosesu teg i'w chael ym [Mholisi Preifatrwydd](#) y BBC. Os yw'r dogfennau hynny a'r hysbysiad hwn yn wahanol, yr hysbysiad hwn fydd yn cael y flaenoriaeth.

Beth fyddwn ni'n ei gasglu a sut fyddwn ni'n ei ddefnyddio

Bydd y BBC yn casglu'r wybodaeth bersonol y byddwch chi'n ei darparu ar y ffurflen hon, gan gynnwys eich enw a gwybodaeth iechyd/mynediad. Mae gan y BBC reswm dilys dros gasglu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cydsynio ac i fodloni gofynion diogelu plant ac iechyd a diogelwch.

Cadw eich gwybodaeth bersonol

Bydd eich data'n cael eu storio'n ddiogel ac yn gyfrinachol yn Dropbox hyd at 30 Medi 2020, pan fydd eich ffurflen ganiatâd yn cael ei dileu. Bydd y BBC yn cadw'r wybodaeth bersonol y gwnaethoch chi ei darparu ar eich ffurflen ganiatâd am gyfnod amhenodol mewn taenlen wedi'i diogelu gan gyfrinair, yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â chaniatâd cyfranwyr. Bydd unrhyw wybodaeth na fydd ei hangen at ddibenion cydsynio yn cael ei dileu ar ddiwedd y prosiect.

Rhannu eich gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn cael ei rhannu â rheolwyr prosiect o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ond ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd parti. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Eich hawliau a rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffordd y mae'r BBC yn delio â'ch gwybodaeth bersonol, neu os ydych chi am gysylltu â'r BBC i arfer eich hawliau o ran eich gwybodaeth bersonol, ewch i <http://www.bbc.co.uk/usingthebbc/privacy/cy/> neu cysylltwch â dpa.officer@bbc.co.uk.

Os byddwch chi'n cyflwyno cwyn i'r BBC am y ffordd y mae wedi delio â'ch gwybodaeth bersonol a'ch bod chi'n anhapus ag ymateb y BBC i'ch cwyn, mae gennych chi hawl cyflwyno cwyn i'r awdurdod goruchwyllo. Yn y DU, yr awdurdod goruchwyllo yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a gallwch gysylltu â nhw yn: <https://ico.org.uk/concerns/>.